Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
5 Rhagfyr 2013; 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :
Cynghorwyr Erddyn Davies (Cadeirydd), Chris Hughes, Rhys Pugh, Gwyneth Thomas, Ifor D. Williams, Sioned Williams
Huw Llwyd Rowlands, Clerc

1. DATGAN DIDDORDEB / BUDDIANT PERSONOL
Dim.

2. YMDDIHEURIADAU
Y Cynghorydd Eddie Hughes, Emyr Williams, Dafydd Iwan, Geraint R. Jones.

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF
Cadarnhawyd.

Cynnig: Ifor D. Williams Eilio: Rhys Pugh.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 PROBLEMAU PARCIO LÔN GROES :
Mae Cyngor Gwynedd wedi paratoi dau gynllun, yn amlinellu darpariaeth barcio posibl oddi ar Lôn Groes. Trafodwyd yr opsiynau ac fe gytunwyd y byddai'r Cynghorydd Chris Hughes yn cysylltu â Chyngor Gwynedd er mwyn trafod ymhellach, gan gynnwys ystyried cyfyngu'r parcio i breswylwyryn unig, ac yna adrodd yn ôl i'r cyngor cymuned.

4.2 PARC Y PLWYF, LLANFAGLAN :
Darparodd North Wales Fencing bris o £997.00 a TAW am wneud y gwaith ychwanegol o ddarparu gwastraff llechi o gwmpas y fainc a lefelu'r tir. Cytunwyd gofyn i North Wales Fencing fynd ymlaen i wneud y gwaith.

4.3 FFOSYDD RHOS-BACH AT CAE HOBSON:
Ymatebwyd i Gyngor Gwynedd gan gytuno i'r argymhelliad o leinio'r ffos, gosod llinell wen ac ymylfaen. Gan fod y Cyngor wedi dweud na fyddant yn blaenoriaethu'r gwaith am resymau ariannol, penderfynwyd ysgrifennu atynt i ofyn iddynt pryd y byddant yn amserlennu'r gwaith.

4.4 CYFETHOL AELOD:
Ni chafwyd cais i gynnal etholiad. Mae hysbyseb wedi ei osod ar hysbysfwrdd Bontnewydd yn gwahodd ceisiadau erbyn 11 Rhagfyr.

4.5 GWEFAN A GRANT LLYWODRAETH CYMRU:
Rhoddwyd gwybod i Cist Gwynedd fod y Cyngor Cymuned yn ffafrio'r opsiwn o gydweithio gyda chynghorau cymuned eraill i sefydlu gwefan.

4.6 BAW CWN YN NHERAS BRYMER:
Mae'r Clerc wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd yn nodi'r gwyn. Cytunwyd i ofyn i Gyngor Gwynedd osod arwyddion ychwanegol yn atgoffa ei bod yn dorsedd gadael i gi faeddu. Awgrymwyd gofyn am arwyddion ychwanegol yn Nheras Brymer, Lon Groes a ger pont y rheilffordd.

5. MATERION ARIANNOL
Cytunwyd i dalu :

Cyflog a chostau clerc Tachwedd 2013

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00

Cyfanswm Gros £253.18

Cyfanswm Net £211.58

Talu anfoneb D.E. Williams rhif 1068, 12/11/2013 am osod bolltau diogelwch newydd yn arosfan bws Bontnewydd £60.00

Talu anfoneb Wyn Williams rhif 1329 am lanhau cysgodfannu bysiau Bontnewdd Hydref a dechrau Tachwedd 2013 £57.00

6. CYNLLUNIO a MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Dim

7. **GOHEBIAETH**

GWYBODAETH AM GOFEBION RHYFEL I UNLLAIS CYMRU
Mae gwefan wedi ei sefydlu gan yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel, ac meant yn gofyn am fanylion cofeabu rhyfel fel y gellir rhoi llun ohonynt are u safle gwe. Nid oes cofeb rhyfel ym Montnewydd, ond mae yna fwrdd coffa yn Y Ganolfan, Bontnewydd. Penderfynwyd fod y clerc yn ysgrifennu at yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel i ofyn a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn cael llun o hwnnw.

ETHOL CYNRYCHIOLYDD I GRWP CYFEIRIO BUDD-DDEILIAID BWRDD IECHYD BETSI CADWALADR, AC ADRODDIAD Y CYNGHORYDD MIKE HARRIMAN
Gan nad oedd manylion am gefndiroedd na phrofiad yr ymgeiswyr, fe benderfynwyd peidio â phledleisio dros yr un ymgeisydd.

E-BOST GAN Y CYNGHORYDD PHIL EDWARDS AM GODI ARIAN AR GYFER COFEB I FILWYR CYMREIG YN FFLANDRYS
Penderfynwyd trafod y cais ariannol yma gyda cheisiadau ariannol eraill yng nghyfarfod mis Mawrth.

DIWEDDARIAD GWAITH FFORDD OSGOI BONTNEWYDD
Llythyr gan Edwina Hart AC at Alun Ffred Jones AC yn dweud y bydd gwaith adeiladu'r ffordd yn dechrau yn Hydref 2016.

GWARIANT ADRAN 137-DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 – SWM 2014-2015
Mae'r swm a bennir ar gyfer 2014-15 at ddibenion adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei godi o £6.98 i £7.20.

YMGYNGHORIAD AR GYNLLUNIAU I DDIRYMU AC AIL-WNEUD RHEOLIADAU CYFIRFON AC ARCHWILIO (CYMRU) 2005
Y rheoliadau hyn yn cael eu hail-wneud er mwyn eu tacluso. Derbyn er gwybodaeth

8. MATERION ERAILL

Seminar Safleoedd Tai Posibl Cynllun Datblygu Lleol Gwyndd a Môn
Cytunodd y Cynghorydd Chris Hughes a Dafydd Iwan Iwan fynychu'r seminar ym Mangor ar 9 Rhagfyr, ac adrodd yn ôl i bawb arall yn y cyfarfod nesaf.

Arosfan bysiau Bontnewydd

Nododd y Cynghorydd Ifor Williams fod arosfan bysiau Bontnewydd i gyfeiriad Dinas angen ei phaentio mewn mannau. Penderfynwyd gofyn am bris i wneud y gwaith.

9. MATERION EITHRIEDIG
Dim mater eithriedig i'w drafod

10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF : 6 Chwefror 2013, am 7yh.